# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mehefin 2024

Amser: 09.15 - 12.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**2.6 Llythyr gan y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg – Dilyniant i'r sesiwn ar Llawlyfr y Cabinet a Thrafodaethau Mynediad**

(Tudalennau 1 - 5)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-10-24-PTN6 Llywodraeth Cymru - Y Sesiwn Friffio ar 23 Mai

**6.2 Llythyr gan y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg – Llawlyfr y Cabinet**

(Tudalennau 6 - 78)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-10-24-PTN6 Swyddogol - Sensitif - Llawlyfr y Cabinet - Mehefin 2024 - yn gyfrinachol ar gyfer PAPAC (Saesneg yn unig)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 2.6

**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru

10 Mehefin 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Y SESIWN FRIFFIO AR 23 MAI**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn y sesiwn friffio dechnegol y gwahoddwyd fy nghydweithwyr a minnau i'w mynychu ar 23 Mai.

Cytunais i anfon ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch nifer o faterion a godwyd gyda ni yn ystod y sesiwn friffio. Cafodd y materion hyn eu cadarnhau yn y nodyn a anfonwyd wedyn gan Glerc y Pwyllgor, ac rwy'n defnyddio penawdau a geiriad y nodyn hwnnw yn yr ymateb.

*Action 1*
*The Committee requested to see a copy of the Cabinet Handbook. We understand this request will need to go through the First Minister for approval and that sections relating to security may need to be redacted.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Rwy'n amgáu copi o Lawlyfr y Cabinet, gyda rhywfaint o destun wedi'i hepgor oherwydd gofynion diogelwch. Lluniwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru at ddibenion mewnol yn hytrach nag i'w chyhoeddi, a byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor yn peidio â'i rhannu ymhellach ar hyn o bryd.

*Action 2*
*If not covered in the Cabinet Handbook what are the established Welsh Government procedures relating to the unauthorised disclosures or leaks of information, and where are these set out?*

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn canllawiau Swyddfa Gabinet y DU ynghylch ymdrin â datgelu gwybodaeth heb awdurdod. Nid yw Swyddfa Gabinet y DU yn cyhoeddi ei chanllawiau. Rhaid i'r Ysgrifennydd Parhaol awdurdodi cychwyn ymchwiliad i ryddhau gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru.

*Action 3*
*Clarification on whether unauthorised disclosure or leaks is covered in the Cabinet Handbook (this may be answered by the Committee having sight of the Cabinet Handbook)*

Nid yw'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â datgelu neu ryddhau gwybodaeth heb awdurdod wedi'u cynnwys yn Llawlyfr y Cabinet. Fodd bynnag, mae'r llawlyfr yn croesgyfeirio at y safonau a ddisgwylir gan Weinidogion fel y'u nodir yng Nghod y Gweinidogion sy'n cyfeirio at ddatgeliadau heb eu hawdurdodi.

*Action 4*
*Clarification on what constitutes officially sensitive information (framed in the context of a party political What's App group discussing ministerial business). For example, does a group chat within a political group, not a Government group chat but a party group, constitute official information for the purposes of the policies and procedures of the Welsh Government or not?*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 259066**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Polisi Dosbarthiadau Llywodraeth y DU i ymdrin â gwybodaeth. Defnyddir y marc SWYDDOGOL:SENSITIF i ddynodi gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, gwybodaeth at ddefnydd mewnol neu wybodaeth a rennir ar sail yr angen angen i wybod: https://www.gov.uk/government/publications/government-security-classifications/government-security-classifications-policy-html. Ni fyddai sgwrs grŵp o fewn grŵp gwleidyddol, nad yw'n digwydd ar ddyfeisiau Llywodraeth Cymru, yn cael ei chyfrif yn wybodaeth swyddogol.

*Clarification on whether it would be legitimate, under some circumstances for public resources, the use of a civil servant in most cases, to investigate the sharing of information that was not in a Government context.*

Ni fyddai gweision sifil yn cymryd rhan mewn ymchwiliad yn ymwneud â materion gwleidyddol oni bai bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei storio ar ddyfeisiau'r Llywodraeth.

*Action 5*

*Given the decision by the remuneration board in its determination that no Senedd resources, including the buildings themselves, can be used for party-political purposes, are political Cabinets discussing party-political issues held in the Senedd and how is this consistent with the ruling or the determination on the use of Senedd resources for party-political purposes?*

Ers y pandemig, mae cyfarfodydd y Cabinet, gan gynnwys Cabinetau Gwleidyddol, yn cael eu cynnal naill ai'n rhithwir neu ym Mharc Cathays, a'r unig eithriad yw un achlysur y llynedd pan gynhaliwyd y cyfarfod yn Nhŷ Hywel.

Darperir ar gyfer defnydd cyfyngedig o eiddo Llywodraeth Cymru at ddibenion etholaeth neu blaid yn adran 4.2 o God y Gweinidogion. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am eglurder pellach gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar ei ddyfarniad ar y defnydd o adnoddau'r Senedd at ddibenion pleidiol wleidyddol.


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 259066**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

*Action 6*

*In relation to the alleged leaking relating to the recent case of the former Minister for Social Partnership, officials stated on the record they were unaware whether a formal leak inquiry had been commissioned by the Welsh Government. Officials were not prepared to provide a yes or no answer when asked if they were aware, now, of a formal inquiry. They stated that given the sensitivities of this case, they would rather provide an answer in writing. The Committee request that an answer be provided in writing as soon as possible.*

Gallaf gadarnhau na chafodd unrhyw ymchwiliad i ryddhau gwybodaeth ei gomisiynu na'i gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r achos hwn. Gofynnodd y Prif Weinidog am gyngor ynglŷn â'r broses o ymdrin â thorri Cod y Gweinidogion, ac fe'i darparwyd.

*Action 7*

*Can Officials provide factual information to the Committee on whether Government resources (putting aside the question of whether a formal leak inquiry has been commissioned) have been used to conduct a forensic analysis of ministerial phones, personal phones, Senedd-supplied phones, server traffic and any other form of telecommunications equipment?*

Nid oes unrhyw ddadansoddiad o'r fath wedi'i gynnal gan Lywodraeth Cymru.

*Action 8*

*Based on the example of costing free school meals around costing a policy, can officials clarify their guidance on providing factual evidence to sitting Governments, in the context of costing opposition policies.*

Mae canllawiau i'r gwasanaeth sifil ar gostio polisïau Gwrthbleidiau ar gael yng nghyhoeddiad Swyddfa Gabinet y DU, "Directory of Civil Service Guidance".



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel **03000 259066**
David.Richards@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Fodd bynnag, nid oes trefniadau cynetholiadol fel y rhai a gafodd eu gwneud yn adrannau Whitehall wedi eu rhoi ar waith yn Llywodraeth Cymru ac nid oes cynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol.

*Action 9*
*The Committee requests sight of a copy of any report arising from the leaking investigation, under strict guidelines for distribution. We note that similar reports have been provided to the Committee, on the basis that they're factual reports and are not advice as covered by Civil Service exclusions. The Committee would accept sight of this report under any limitations the Welsh Government feels are appropriate.*

Fel y nodwyd uchod, ni chafodd ymchwiliad o'r fath i ryddhau gwybodaeth ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd y Prif Weinidog am gyngor ynglŷn â'r broses o ymdrin â thorri Cod y Gweinidogion, ac fe'i darparwyd.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 259066**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

# Eitem 6.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon